Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Willowdale**

**Willowdale Residential Home Ltd**
**112 Ffordd Caer**
**Bwcle**
**CH7 3AH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Willowdale

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Willowdale Residential Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Awst 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, a oedd yn canolbwyntio ar feysydd o'r gwasanaeth a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yr oedd angen cymryd camau gweithredu â blaenoriaeth yn eu cylch. Ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried gofal a chymorth, yr amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Mae'r bobl yn hapus a chânt eu cefnogi i fyw eu bywydau fel y mynnant. Caiff lleisiau'r bobl eu clywed, a chaiff eu hannibyniaeth ei hybu. Mae'r staff gofal yn deall anghenion iechyd y bobl, a gwneir atgyfeiriadau amserol er mwyn cael cyngor ac arweiniad pan fo angen. Caiff y cartref ei gefnogi gan amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt i gadw mor iach â phosibl.

Darperir y gofal gan dîm o staff brwdfrydig a chyfarwydd. Mae'r ddogfennaeth gofal yn adlewyrchu'r unigolyn sy'n cael gofal, ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff cofnodion a gwiriadau meddygol eu cynnal yn unol â'r wybodaeth yng nghynlluniau personol y bobl. Mae'r cartref yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r bobl fyw ynddo sy'n ddiogel, mewn cyflwr da, ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r amgylchedd yn gynnes, yn lân, ac wedi'i addurno i safon uchel. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth ac yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae systemau clir ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth i sicrhau eu llesiant corfforol a chymdeithasol. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y staff gofal a rheolwyr y cartref a gwelsom fod y gweithwyr gofal yn helpu'r bobl mewn ffordd bwyllog gan ddangos urddas a pharch. Mae'r cofnodion gofal yn gynhwysfawr ar y cyfan ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, gellid eu gwella drwy gynnwys y bobl neu unigolyn priodol mwy yn y broses o adolygu gofal a chymorth y bobl, a sicrhau bod rhai arferion yn cael eu cynnal yn unol â chynllun personol yr unigolyn. Gwnaethom siarad â gweithwyr proffesiynol, y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'r staff a gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol. Gwelsom fod gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda am anghenion y bobl, a'u bod yn cyfeirio at y bobl mewn modd cadarnhaol. Roedd yn amlwg eu bod yn adnabod y bobl roeddent yn eu cefnogi yn dda. Cadarnhawyd hyn gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw.

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom y bobl yn mwynhau'r amrywiol ardaloedd sydd ar gael i eistedd ynddynt ac yn mwynhau cwmni eraill. Gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd ystyriol a'u bod yn parchu dymuniadau'r bobl. Serch hynny, roedd rhai enghreifftiau o ryngweithio a welsom ar fore'r arolygiad wedi'u rhuthro, ac ar adegau, prin iawn oedd y rhyngweithio rhwng y gweithwyr gofal a rhai o'r bobl. Mae dewis ar gael o ran prydau bwyd, a gwelsom fod y bobl yn cael dewisiadau amgen os nad ydynt yn hoffi'r dewisiadau ar y fwydlen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu codi a mynd i'r gwely pryd bynnag y maent am wneud hynny, a gwelsom enghreifftiau o hynny.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu hamddiffyn rhag achosion posibl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwirio staff asiantaeth. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant a ddarperir gan y cartref.

Mae'r cartref yn lân, yn gynnes ac yn gyfforddus ac mae'r ystafelloedd gwely yn adlewyrchu dewisiadau'r unigolyn.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r darparwr yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a gwybodaeth er mwyn cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolion ac yn gallu cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Cyn i'r ymgeisydd ddod i fyw yn y gwasanaeth, ymwelir ag ef, a chynhelir asesiad cyn derbyn manwl gan aelod o'r staff sy'n meddu ar gymwysterau priodol. Dangosodd y rheolwr ei fod hefyd yn asesu anghenion gofal a chymorth y bobl er mwyn sicrhau bod y cartref yn gallu darparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar unigolyn cyn iddo symud i Willowdale. Roedd yr asesiad yn gynhwysfawr, a dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael ei ddefnyddio bob tro wrth ystyried a ddylai unigolyn symud i'r cartref. Gwelsom hefyd asesiadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ffeiliau'r bobl y gofynnwyd amdanynt cyn i'r bobl symud i mewn i'r cartref ac yn ystod cyfnod yr unigolyn yn Willowdale. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym eu bod mewn cysylltiad rheolaidd â gweithwyr proffesiynol mewn perthynas ag anghenion iechyd a chymorth y bobl, a chadarnhawyd hyn gan y cofnodion a welsom.

Gwelsom fod cynlluniau personol ar waith, eu bod yn fanwl, yn cael eu hadolygu, a'u bod yn rhoi digon o wybodaeth i'r staff cymorth gyflawni eu rôl. Gwelsom fod y cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn nodi hanes manwl cyflyrau meddygol y bobl a'u bod yn adlewyrchu'r canlyniadau yn y ddogfennaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol a oedd i'w gweld yng nghofnodion y bobl. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw bod y cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cynnwys digon o fanylion iddynt gyflawni eu rôl yn briodol a'u bod yn rhoi disgrifiad cywir o'r unigolyn sy'n cael cymorth. Gwnaethom siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref a oedd yn teimlo bod y staff gofal yn eu cefnogi yn y ffordd briodol.

Ar y cyfan, caiff gofal a chymorth eu darparu mewn ffordd sy’n amddiffyn ac yn cynnal diogelwch a llesiant yr unigolion. Gwelsom gofnodlyfrau dydd a dogfennaeth gofal a oedd yn dangos bod y staff gofal yn cefnogi'r bobl yn unol â dogfennaeth y gweithwyr proffesiynol, a bod y gweithwyr gofal hefyd yn cysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol a phriodol. Cadarnhawyd hyn gan weithiwr iechyd proffesiynol y gwnaethom siarad ag ef. Gwelsom fod y cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd adolygiadau rheolaidd ffurfiol yn cael eu cynnal o'r cynlluniau personol gyda'r unigolyn a / neu unigolyn priodol. Dywedodd y rheolwr wrthym y bydd prosesau yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau y caiff y broses hon ei rhoi ar waith yn y dyfodol. Gwelsom fod gofynion deietegol y bobl yn cael eu nodi'n glir yn nogfennaeth gofal y bobl a bod y wybodaeth hon ar gael i'r staff yn y gegin. Gwelsom fod y bobl yn cael cynnig dewis o ran yr hyn y maent am ei fwyta oddi ar fwydlen sy'n newid yn aml. Gwelsom fod dewisiadau eraill ar gael i'r bobl os nad oeddent yn hoffi'r opsiynau ar gyfer y diwrnod hwnnw. Dywedodd y bobl wrthym fod y bwyd yn dda, eu bod yn cael digon ohono a'u bod bob amser yn cael pryd wedi'i goginio amser cinio. Dywedodd unigolyn wrthym fod y staff gofal yn aml yn coginio omled i breswylydd arall ganol nos a bod y gweithwyr gofal yn coginio bwyd iddo yn ystod y nos hefyd. Gwnaethom

siarad â'r bobl a'r staff gofal a ddywedodd wrthym y gallai'r bobl gael opsiwn wedi'i goginio ar gyfer eu brecwast os byddent am gael hynny, a gwelsom hyn yn digwydd hefyd.

Gwelsom ddogfennaeth hefyd sy'n dangos, er enghraifft, bod cofnodlyfrau o'r hyn y mae unigolion yn ei fwyta a'i yfed a'u pwysau yn cael eu diweddaru a bod tasgau yn seiliedig ar y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol wrthym y bu pryderon am yr hyn yr oedd rhai o'r bobl yn ei fwyta a'i yfed, a dywedwyd wrthym fod gwelliannau wedi'u gwneud i arferion a bod cyflwr yr unigolion hefyd wedi gwella, ers i'r cartref nodi hyn. Fodd bynnag, mewn sampl o ddogfennaeth cynllun personol dau unigolyn, gwelsom nad oeddent yn cael eu hail-leoli fel y nodir yn eu cynlluniau gofal a chymorth. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom y gweithwyr gofal yn eistedd gyda phreswylwyr yn y lolfeydd, yn siarad â nhw ac yn rhyngweithio'n dda. Gwelsom y staff gofal yn cefnogi'r bobl yn dda yn ystod amseroedd bwyd ac yn eu hannog i fwyta eu prydau. Fodd bynnag, gwelsom un amser bwyd penodol lle na chafwyd fawr ddim rhyngweithio ystyrlon rhwng y staff gofal a nifer fach o'r bobl. Gwnaethom siarad â'r rheolwr am hyn, a gwelsom welliannau yn y rhyngweithio rhwng y staff gofal a'r bobl yn ystod amser te. Hefyd, gwelsom y gweithwyr gofal yn helpu'r bobl i symud o'r ardal fwyta yn ôl i'r lolfa yn briodol. Roeddent yn dangos tosturi ac yn gweithredu mewn ffordd bwyllog a hamddenol, gan esbonio i'r unigolyn er mwyn rhoi sicrwydd iddo. Yn ogystal, gwelsom y staff gofal yn rhoi cymorth i'r bobl yn eu hystafelloedd yn gyflym pan oedd angen. Cadarnhaodd y bobl sy'n byw yn y cartref a'r gweithwyr gofal y gallai'r bobl godi a mynd i'r gwely ar unrhyw adeg, ac y gallent gael cawod / bath ar unrhyw adeg hefyd.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae pob rhan o'r cartref yn lân, yn groesawgar ac wedi'i haddurno'n dda. Roedd y drws ffrynt a phob drws tân a oedd yn arwain allan wedi'u cau a'u cloi gan gloeon magnetig. Yn dilyn digwyddiad diweddar, mae'r rheolwr yn bwriadu ychwanegu caewyr drysau at y drws ffrynt er mwyn sicrhau bod y drws yn cau yn gyflym, yn ogystal â chloch er mwyn gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn gwybod pan fydd y drws ffrynt wedi cael ei agor. Mae digon o le i'r bobl allu dewis ble yr hoffent dreulio eu hamser ac yn ystod yr arolygiad, gwelsom y bobl yn eistedd yn y ddwy lolfa ac yn yr ardal fwyta. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o'r ystafelloedd gwely. Nodwyd gennym eu bod yn gynnes ac yn lân a bod cyfleoedd i'r bobl eu personoli os byddant am wneud hynny. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y cartref. Gwelsom y staff domestig yn glanhau bob dydd; roedd y cartref yn lân drwy gydol yr arolygiad. Nid oedd unrhyw beryglon yn yr ardaloedd cymunedol, gan sicrhau bod y bobl yn ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Yn ystod ein harolygiad diwethaf, gwnaethom nodi maes i'w wella mewn perthynas â lefelau staffio a hyfforddiant a pharhad staff asiantaeth. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y gwelliannau angenrheidiol wedi'u gwneud. Gwnaethom siarad â'r staff gofal a'r bobl sy'n byw yn y cartref, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo bod digon o staff ar ddyletswydd, a gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau hyn. Roedd y cydgysylltydd gweithgareddau ac un o'r cynorthwywyr golchi dillad wedi gadael yn ddiweddar. Gwelsom nad oedd hyn wedi effeithio ar y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl. Roedd y gweithwyr gofal a oedd yn gweithio yn ystod y prynhawn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r bobl a gwnaethom siarad â'r glanhawr a ddywedodd wrthym fod ei oriau wedi cynyddu er mwyn gallu ymgymryd â rôl y gweithiwr golchi dillad a oedd wedi gadael. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref nad oedd unrhyw broblemau o ran y broses olchi dillad a chadw eu dillad yn lân ac wedi'u smwddio. Gwelsom dystiolaeth fod y darparwr wrthi'n recriwtio ar gyfer sawl swydd a bod y darparwr wedi cymryd camau cadarnhaol i lenwi'r swyddi hyn gan gynyddu'r gyfradd tâl fesul awr ac ychwanegu cymhellion pellach. Gwelsom waith papur a oedd yn dangos bod y lefelau staffio yn cydymffurfio â'r lefelau staffio disgwyliedig a nodwyd gan y rheolwyr. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod fel arfer yn gallu sicrhau digon o weithwyr ar gyfer pob shifft, ac eithrio mewn achosion lle na fyddai'n cael llawer o rybudd ymlaen llaw, os o gwbl, am aelod o staff nad yw'n gallu gweithio. Mae'r darparwr yn ceisio sicrhau y caiff yr un staff o'r asiantaethau eu cyflogi er mwyn gwella gwybodaeth staff asiantaeth am anghenion y bobl ac er mwyn helpu i sicrhau parhad gofal. Gwelsom rotas a oedd yn cadarnhau hyn.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sydd wedi'u hyfforddi. Gwelsom fod cymwysterau hyfforddiant staff asiantaeth yn cael eu gwirio a bod yn rhaid iddynt gwblhau cyfnod sefydlu a chymhwysedd codi a chario cyn dechrau gweithio yn y cartref. Gwelsom fod gweithwyr gofal y cartref yn cael hyfforddiant mewn meysydd fel codi a chario a rheoli heintiau. Roedd gwiriadau recriwtio trylwyr wedi cael eu cynnal ar staff y cartref a staff asiantaeth yn unol â'r rheoliadau.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus a bod gofal a chymorth o ansawdd uchel yn cael eu darparu. Dengys y cofnodion fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref ac yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r gwasanaeth. Cynhelir adolygiad sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod y bobl yn fodlon ar y gwasanaeth. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal adolygiadau o'r gwasanaeth yn unol â'r rheoliadau. Gwelsom fod yr uwch-reolwyr yn cynnal amrywiaeth gynhwysfawr o archwiliadau er mwyn sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn effeithiol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 34 | Mae risg i iechyd, diogelwch a llesiant y bobl gan nad oes nifer digonol o staff ar gael yn y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth nad ydynt bob amser wedi'u hyfforddi'n ddigonol a/neu'n ddigon cymwys o ran arferion symud a chodi a chario. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Mae cynlluniau personol y bobl yn cynnig adlewyrchiad cywir o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl. Fodd bynnag, nid yw'r staff gofal bob amser yn cadw at y gofal a ragnodir mewn perthynas ag ail-leoli. Nid yw rhai o'r siartiau ail-leoli bob amser yn cael eu cwblhau'n brydlon ac, o ganlyniad, nid yw'r bobl yn cael eu cefnogi'n unol â'u hanghenion gofal a chymorth. | Newydd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/07/2023